





Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Ddatblygiad Plant yn rhan o'r Gwasanaeth Seicoleg a Therapïau.



Gofynnwch unrhyw gwestiwn i ni ac os nad ydym yn gwybod yr ateb fe fyddwn yn ceisio dod o hyd iddo!


Rhifau ffôn cyswllt

Canolfan Ganolog / Torfaen - 01633 436996

Blaenau Gwent / Gogledd Sir Fynwy - 01873 732712

Caerffili - 02920 867447

Casnewydd / De Sir Fynwy– 01633 748058

**Gwefan –** http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/57379


Patient Information Unit - PIU:1494/1 - Issue Date:- June 2024 Expiry:- June 2027

# Croeso i'r Gwasanaeth Cynghori ar Ddatblygiad Plant





GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

## Pwy yw’r Gwasanaeth Cynghori ar Ddatblygiad Plant?



Rydym yn wasanaeth ar gyfer plant cyn-ysgol sydd ag oedi mewn datblygiad.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â chi a’ch plentyn drwy chwarae er mwyn hybu datblygiad.

## Yr hyn yr ydym yn ei wneud

- Ymweld â chi a’ch plentyn gartref, mewn clinig neu drwy alwad fideo ar amser sy’n gyfleus i chi
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill i’ch cefnogi
- Defnyddio asesiad strwythuredig i feddwl am ddatblygiad eich plentyn
- Gosod goliau hirdymor a thymor byr ar gyfer eich plentyn
- Cyflwyno teganau a dysgu sgiliau i chi a ffyrdd o annog dysgu drwy chwarae



## Yr hyn y mae rhieni’n ei ddweud-

“Helpu i’ch atgoffa mai eich plentyn chi yw eich plentyn chi ac mae nhw’n anhygoel”

“Caiff perthnasoedd proffesiynol a phersonol eu ffurfio – camau anhygoel ymlaen trwy’r cyfan”

“Roeddem yn drist eich gweld yn dod – tristach byth yn eich gweld yn gadael”

“Mae fy mhlentyn yn cael amser arbennig ar ei gyfer ef ac mae wrth ei fodd!”

## Eich Rôl

Rydym yn eich gwerthfawrogi gan mai chi yw’r person pwysicaf o ran hybu datblygiad eich plentyn.



Os gwelwch yn dda-

- Cymerwch ran yn y sesiwn a rhoi cynnig ar weithgareddau gyc rhwng sesiynau
- Ceisiwch gynnwys pawb sy’n bwysig i’ch plentyn
- Gofynnwch i gymdogion a ffrindiau beidio â galw yn ystod sesiynau, trowch y teledu neu’r radio i ffwrdd a gadewch anifeiliaid mewn ystafell arall er mwyn i ni allu canolbwyntio ar anghenion eich plentyn
- Peidio ag ysmygu pan fyddwn yn yr ystafell gyda chi

## ? Cwestiynau Cyffredin ?

### Beth os nad wyf yn gallu dod i apwyntiad?

Cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl. Ffoniwch ein prif swyddfa ar 01633 436996 os nad oes modd i chi fynychu apwyntiad

### Beth os byddaf yn anghofio am apwyntiad?

Cysylltwch â ni ar 01633 436996 i roi gwybod i ni. Os bydd dau sesiwn ar y tro yn cael ei fethu heb eglurhad yna yn anffodus bydd yn rhaid i ni ryddhau eich plentyn o’n gwasanaeth. Mae hyn yn ein galluogi i weithio gyda theulu arall sy’n aros i gael eu gweld.



### Beth os bydd fy mhlentyn yn sâl?

Os bydd eich plentyn yn sâl, neu os ydych chi’n meddwl bod ganddynt hwy neu aelod agos o’r teulu salwch heintus, cysylltwch â ni i ganslo eich apwyntiad wyneb yn wyneb a gallwn drefnu apwyntiad rhithwir.



### Grwp K.I.S.S (Knowledge, Information, Support and Signposting)

Dyma ein fforwm rhieni sy’n ein cynghori ar ddatblygiadau i’r gwasanaeth. Cysylltwch â ni os hoffech fod yn rhan o’r grwp.